



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg - Datganiad Gwaddol Llywodraethu Mai 2018

Datganiad cyfunol o ran y dull gweithredu cyffredinol yng nghyswllt Llywodraethu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau ei bod yn cyflawni ei dyletswyddau statudol fel y nodwyd hwy dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r modd y caiff y dyletswyddau hynny eu cyflawni. Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol iddi sicrhau cydymffurfiaeth ag ystod eang o ddeddfwriaeth a gofynion ariannol a sicrhau bod ganddi systemau a phrosesau cadarn yn eu lle i sicrhau cywirdeb ariannol a rheoli risg yn effeithlon.

Nodir dull gweithredu cyffredinol y Comisiynydd yn ei Datganiad Llywodraethu (Atodiad A) a gyhoeddir bob blwyddyn fel rhan o'i Hadroddiad Blynyddol; a'i Chyfrifon cyhoeddedig. Ni chodwyd unrhyw broblemau ers 2012.

Bob blwyddyn, bydd y Comisiynydd a'i staff yn llofnodi cod ymddygiad (Atodiad B) sy'n ymgorffori saith egwyddor bywyd cyhoeddus.

Datganiad cyfunol o ran y dull gweithredu cyffredinol yng nghyswllt cynllunio ariannol.

Yn flynyddol, erbyn 31 Hydref, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyflwyno Amcangyfrif i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Fel arfer caiff cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ei chynnig yn yr Hydref gyda'r gyllideb derfynol yn cael ei gosod ym mis Rhagfyr. Bydd pleidlais ar y gyllideb yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd Mawrth, fel arfer ym mis Ionawr.

Mae dull gweithredu'r Comisiynydd o ran rheoli ariannol yn seiliedig ar y canlynol:

- Cyllideb dreigl tymor canolig sy'n cael ei rhannu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)
- Modelu ariannol o ran toriadau i'r gyllideb yn y dyfodol
- Monitro a rhagweld y gyllideb yn fisol
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon
- Cymesuredd a mapio ar draws meysydd busnes
- Rheoli cronfeydd wrth gefn yn weithredol fel arf busnes a rheoli risg allweddol
- Rheoli prosiectau
- Rheoli risg

Nodwyd gan y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies bod yr "...amcangyfrif ariannol a gyflwynwyd gan y Comisiynydd yn dangos sefyllfa gytbwys iawn am y blynyddoedd nesaf sy'n dibynnu ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Nodaf hefyd eich bod wedi archwilio ac wedi llwyddo i gyflawni arbedion effeithlonrwydd o ran staffio a strwythurau a'ch bod o'r farn nad oes fawr o le ar gyfer arbedion effeithlonrwydd pellach yn y meysydd hyn."

Datganiad cyfunol o ran y dull gweithredu cyffredinol yng nghyswllt cynllunio busnes.

Gan ystyried natur gyfyngedig cyllideb y Comisiynydd mae'r maes i ganolbwyntio arno yn benderfyniad allweddol bob blwyddyn. Caiff cynllun busnes blynyddol ei ddatblygu a'i rannu gydag ARAC bob mis Mai, sy'n rhoi manylion y camau penodol a fydd yn cael eu cymryd gan dîm y Comisiynydd. Mae hyn hefyd yn gyfrwng i'r Comisiynydd osod ei hamcanion blynyddol a drwy'r rhain, rhaglen waith gyflawn y sefydliad. Gwneir gwaith cysoni ffurfiol o weithredu yn erbyn y cynllun busnes ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a bydd yn cael ei rannu ag ARAC.

Datganiad cyfunol o ran y dull gweithredu cyffredinol yng nghyswllt rheoli risg.

Y risg gyffredinol a nodwyd gan y Comisiynydd yw na fyddai'r Comisiynydd yn cael ei gweld fel rhywun effeithiol a dylanwadol neu ddim yn cael ei hystyried yn geidwad arian cyhoeddus da.

Nododd y Comisiynydd nifer o ysgogiadau allweddol, gan gynnwys methiant sylweddol i gydymffurfio â gofynion llywodraethu, rheoleidd-dra

a chyfreithiol, diffyg effaith a cholli cefnogaeth ar draws rhanddeiliaid allweddol.

Mae elfennau allweddol o agwedd y Comisiynydd tuag at risg yn cynnwys:

- Rheolaeth a chywirdeb ariannol
- Reoli risg yn erbyn cyfle
- Bod yn agored a thryloyw
- Eglurder y rhaglen waith yn allanol a mewnol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a rheoli'r berthynas
- Monitro allbynnau drwy ddull gweithredu seiliedig ar reoli prosiect
- Buddsoddi yn lles, sgiliau a chymwyseddau staff
- Cynllunio parhad busnes
- Eglurder o ran y disgwyliadau ar staff drwy'r cod ymddygiad
- Diogelwch data a TG

Mae strategaeth rheoli risg ffurfiol yn ei lle sy'n amlinellu i staff sut y dylid canfod, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd, ac felly hefyd gofrestr risg gorfforaethol ffurfiol.

Caiff y gofrestr risg gorfforaethol ei thrafod yn fisol ym mhob cyfarfod o'r Uwch Dîm Rheoli, ac yn chwarterol ym mhob cyfarfod ARAC, ac mae monitro dull gweithredu'r Comisiynydd o ran risg yn swyddogaeth allweddol i ARAC.

Datganiad cyfunol o ran cyfrifon blynyddol.

Ers 2012, cyflwynwyd cyfrifol blynyddol i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlenni gofynnol. Ers 2012, canfuwyd nifer bychan o fân faterion cyfrifo'n ymwneud â ffigurau crynion, camgymeriadau teipio yn yr adroddiad taliadau ac un camgymeriad cam-bostio heb ei gywiro, ond ni chafodd y rhain unrhyw effaith ar lofnodi'r cyfrifon a wnaed yn ddiamod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Atodwyd trosolwg o'r camgymeriadau hyn fel Atodiad C. Ni chodwyd unrhyw faterion erioed gan Lywodraeth Cymru o ran rheolaeth arian na chyflwyno'r cyfrifon.

Ym mis Hydref 2014, archwiliwyd cyfrifon yr holl Gomisiynwyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, gan fod eu cyllidebau yn rhan o gyfrifon cyfun ehangach Llywodraeth Cymru. Ni chodwyd unrhyw faterion

ynghylch rheolaeth arian a chydabuwyd y gwaith a wnaed gan y Comisiynydd i wella cynhyrchiant a sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf.

Datganiad cyfunol o ran unrhyw faterion a godwyd gan archwiliad allanol.

Ers 2012, Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) fu archwilwyr allanol y Comisiynydd. Ers 2012, dim ond dau fater bychan yn ymwneud â'r cyfrifon blynyddol a godwyd ac ni chodwyd unrhyw faterion ynghylch llywodraethu.

Datganiad cyfunol o ran unrhyw faterion a godwyd gan archwiliad mewnol.

Ers 2012, Deloitte fu archwilwyr mewnol y Comisiynydd; adnewyddwyd y contract hwn yn 2017 a bydd yn agored i'w adnewyddu yn 2020 gydag opsiwn i ymestyn am flwyddyn arall. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae'r Comisiynydd wedi comisiynu rhaglen archwilio mewnol helaeth, gan gyllidebu oddeutu 25 diwrnod y flwyddyn. Ceir ffocws deul i hyn: edrych ar systemau rheoli yn ogystal â gwerth am arian ansoddol a gwaith gwerth ychwanegol.

Dros y chwe blynedd diwethaf, dewiswyd 13 pwnc unigol ar gyfer archwiliad mewnol. Ni fu unrhyw enghraifft o lefel sicrwydd yn cael ei nodi'n is na chyflawn neu sylweddol. Lle y nodwyd mân faterion, gan awgrymu gweithredu, cydymffurfiwyd â hyn ym mhob achos neu cytunwyd gyda'r archwilwyr mewnol pam nad oedd gweithredu'n briodol.

Mae Atodiad D yn cynnwys tabl o bob archwiliad mewnol a wnaed dros y chwe blynedd diwethaf yn ogystal â'r canfyddiadau; gan gynnwys a gydymffurfir bellach ag unrhyw faterion a godwyd.

Caiff y rhaglen archwilio mewnol ei datblygu'n flynyddol a'i thrafod gydag ARAC yng nghyfarfod mis Mai. Caiff pob adroddiad archwilio mewnol eu rhannu'n llawn ag ARAC a chaiff yr holl gamau a gytunwyd eu cadw dan adolygiad.

Datganiad cyfunol o ran Adroddiadau Blynyddol ARAC.

Bob dwy flynedd bydd yr archwilwyr mewnol yn gweithio gydag ARAC a'r Comisiynydd i adolygu ei effeithlonrwydd ymhellach.

Yn ogystal, mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i ARAC ymgymryd ag adolygiad blynyddol o'i berfformiad, gan gynnwys gwerthusiadau perfformiad blynyddol o aelodau'r pwyllgor gan y Cadeirydd.

Caiff yr adolygiad blynyddol hwn ei arwain gan y Cadeirydd a'i drafod yng nghyfarfod ARAC ym mis Mai. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu aelodaeth, tâl, tymhorau swydd, amllder cyfarfodydd a phrif weithgareddau archwilio a sicrhau risg y pwyllgor. Mae hefyd yn gyfle i'r pwyllgor ystyried a yw'n fodlon ar lefel ac ansawdd cyffredinol yr archwilio mewnol ac allanol a threfniadau'r Comisiynydd ar gyfer rheolaeth ariannol a phrosesau ehangach llywodraethu corfforaethol a chanfod risg a rheolaeth sydd yn eu lle gan y Comisiynydd.

Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol ac mae ARAC bob amser wedi darparu lefel uchel o sicrwydd i'r Comisiynydd bod y trefniadau llywodraethu, rheoli ariannol a rheoli risg sydd yn eu lle yn briodol ac wedi gweithredu'n effeithlon.

Gellir canfod copïau o adroddiadau blynyddol ARAC yn Atodiad E.

Datganiad cyfunol o ran perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ac Archwilio Mewnol.

Bob blwyddyn bydd yr ARAC yn cynnal, ynghyd â'r Comisiynydd, adolygiad o berfformiad ei harchwilwyr mewnol ac allanol, gan gynnwys effeithlonrwydd y berthynas waith rhwng y ddau. Ni chodwyd unrhyw faterion a bydd y ddau archwilydd yn cadarnhau'n flynyddol eu bod yn derbyn y gefnogaeth a'r cymorth gofynnol gan y Comisiynydd a'i staff.

Trosolwg gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru

Yn 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, trosolwg cynhwysfawr o'r prosesau a'r camau yr oedd disgwyl iddynt fod yn eu lle gan gyrff cyhoeddus.

Mae gwaith yn mynd rhagddo, ar y cyd ag Archwilwyr Mewnol, i fapio cydymffurfiaeth y Comisiynydd â'r ddogfen. Bydd hyn yn cael ei ddwyn gerbron cyfarfod ARAC ym mis Gorffennaf.

Datganiad ar ran ARAC

Mae'r Comisiynydd wedi cynnal trefniadau cadarn o ran llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheoli risg ac wedi darparu gwybodaeth gynhwysfawr ac o ansawdd uchel i alluogi ARAC i gyflawni ei rôl a darparu sicrwydd bod y sefydliad yn gweithredu mewn modd boddhaol iawn. Mae'r archwilwyr mewnol wedi darparu sicrwydd sylweddol yn gyson ar y gwaith a wnaed ac nid yw'r archwilwyr allanol wedi codi unrhyw faterion o bwys yn ystod cyfnod y Comisiynydd yn y swydd.

Yn ogystal, rhoddodd ARAC ganmoliaeth i'r Comisiynydd am fod ag ymroddiad i fod yn agored ac yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau.

Atodiadau:

- Atodiad A – Datganiad Llywodraethu
- Atodiad B – Y Cod Ymddygiad
- Atodiad C – Trosolwg o sylwebaeth o'r Llythyr Rheoli
- Atodiad D – Canfyddiadau archwilio mewnol
- Atodiad E – Adroddiadau Blynyddol ARAC

Mae'r dogfennau hyn i gyd wedi cael eu cyflwyno yn eu fformat llawnach i gyfarfodydd blaenorol ARAC ac maent ar gael os gwneir cais.